



Torfaen Business Voice

Llais Busnes Torfaen



<http://bit.ly/twitter-TorfaenBizCymru>



<http://bit.ly/facebook-TorfaenBiz>



<http://bit.ly/youtube-TorfaenBiz>

MAWRTH 2021



Cyfarfodydd Rhithwir Nesaf: 25ain Mawrth a 29ain Ebrill am 4.30pm

Fel busnes, mae'n anodd gwybod pa gefnogaeth, arian a rheoliadau sy'n bod, tanysgrifwch am ddim i weld bwletin byr gyda phopeth mewn un man, ac i dderbyn bwletinau Economi a Mentergarwch Torfaen yn rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn syth trwy e-bost Tanysgrifwch i dderbyn bwletinau gwybodaeth rheolaidd, a'r diweddaraf gan Economi a Mentergarwch Torfaen i'ch e-bost.

www.southwalesbusiness.co.uk

**CADWCH
MEWN
CYSYLLTIAD!**

Gair gan y Cadeirydd

Er gwaethaf yr anawsterau ar hyn o bryd y mae'n rhaid i ni i gyd ddygydd â nhw, rwy'n falch o weld bod ein clwb bellach wedi pasio'r 100 o aelodau busnes. Mae nifer dda wedi mynychu ein cyfarfodydd ar Microsoft Teams a hyd nes y gallwn gwrdd eto (fel y dywed yn y gân) byddwn yn parhau â hyn bob mis i roi cyfle i bawb siarad â'i gilydd a hyrwyddo'u busnesau.

O ran ein cyfarfod nesaf ar 25 Mawrth 2021, byddwn yn defnyddio ystafelloedd ymneilltuo yn Teams fel y gallwn rannu'n grwpiau llai ar gyfer 3 rownd o rwydweithio pwrpasol.



Ashley Harkus
Cadeirydd,
Llais
Busnes
Torfaen

Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen



Mae cyfle o hyd i elwa o'n cyfarfodydd clwb busnes ar-lein, a hynny am ddim tan Ebrill 2021. Dyma gyfle go iawn i fusnesau sy'n chwilio am sianel farchnata newydd, cymorth busnes ac i siarad â phobl sy'n wynebu heriau tebyg.

Mae ein cyfarfodydd ar-lein yn rhoi cyfle i chi ddod i adnabod perchnogion busnesau lleol, trafod unrhyw wybodaeth neu gymorth sydd ei angen amoch a gweld a oes gan unrhyw un ohonynt yr atebion, neu a ydynt wedi dod o hyd i gyfleoedd newydd. Gallwch hefyd ddweud wrth y grŵp am eich busnes a'r hyn rydych chi'n chwilio amdano. Os hoffech ymuno am ddim, cwblhewch y ddolen isod a byddwn yn cysylltu â chi cyn bo hir. Mae hwn yn gyfle busnes unigryw i beidio â'i fethu, edrychwch ar bwy sydd eisoes yn aelod o Llais Busnes Torfaen.
<http://bit.ly/proffiliar-aelodau>

Dylai hyn roi'r cyfle i ddistewi llai o feiciau a mwy o sgwrsio. Diolch i Jo a Rhiannon am drefnu hyn.

Gobeithio y byddwn yn cwrdd eto ar ryw adeg ond tan hynny byddwn yn parhau i geisio sicrhau y gall ein cyfarfodydd fod mor gymdeithasol a defnyddiol i aelodau ag y gallant fod. Fe welwch yn y cylchlythyr fod amrywiol aelodau wedi ysgrifennu erthyglau am eu profiadau a'u harbenigedd. Os hoffai unrhyw un gyfrannu at yr un nesaf, rhowch wybod i ni.

Dod yn Aelod

<http://bit.ly/llais-busnes-torfaen>



TUDALEN 4

Y Gronfa I Fusnesau
Dan Gyfyngiadau
Symud

TUDALEN 5

Dylanwadu ar ddyfodol y
gweithle yng Nghymru

TUDALEN 6

Rheoli Costau
Cyfleustodau yn
ystod y cyfnod clo

TUDALEN 7

Love Jewellery –
Gwireddu
breuddwyd



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation

Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

☎ 01633 647800

✉ info@southwalesbusiness.co.uk

www.southwalesbusiness.co.uk

🐦 @TorfaenBizCymru

📘 TorfaenEnterprise

📺 Torfaen Economy & Enterprise

MWY NA

£22m

O GYMORTH ARIANNOL

COVID YN CYRRAEDD

BUSNESAU YN NHORFAEN

Rydym yn gwybod fod bod yn berchennog busnes ar yr adegau digynsail hyn wedi bod yn her i bawb, waeth ym mha sector.

Mae Cyngor Torfaen wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod grantiau'n cael eu dyfarnu cyn gynted â phosibl. Rydym wedi darparu cefnogaeth i tua **1,300** o fusnesau lleol gyda dros **£22 miliwn** wedi'u dosbarthu hyd yma.

Dyma grynodeb o ble dyfarnwyd yr arian:

Rhagfyr
Cronfa Cyfyngiadau
- Cronfa Gwydnwch
Economaid ar gyfer
Lletygarwch a Masnachol

Gorffennaf/Awst
Grantiau Cychwyn

Angen mwy o gyngor?

Mae Economi a Mentergarwch Torfaen yma i gynnig cyngor diduedd cyfrinachol am bob agwedd ar eich busnes. Rydym yma i wrando. Danfonwch e-bost: info@southwalesbusiness.co.uk neu ffoniwch 01633 647800.

Mawrth/Ebrill/Mai/
Mehefin
Grant Cyfnod Clo i
Eiddo Masnachol

Hydref/Tachwedd
Grant Llawrydd

Hydref/Tachwedd
Grant Cyfnod Clo Chwim
i eiddo masnachol a
lletygarwch

£
17,650,000

£
1,580,000

£
157,500

£
3,084,500

£
160,000

Gofalwch am eich iechyd meddwl

Yn 2009 es i ar siwrnai dywyll, ddiflas o orweithio a ddaeth â gyrfa gorfforaethol ar lefel uwch i ben ar ôl deng mlynedd ar hugain. Ni feddyliais erioed y byddwn yn eistedd yn y feddygfa yn cael diagnosis o iselder clinigol a phryder difrifol; cerddais allan o'r feddygfa'r ar y diwrnod heulog o wanwyn hwnnw gan deimlo fy mod yn fethiant, fy mod wedi siomi pawb ac mai'r unig obaith oedd gen i oedd dim gobaith!



Er 2010 rwyf wedi adeiladu a thyfu fy musnes, ar brydiau, trwy'r holl ddryswch yn fy mhen a fyddai'n arwain at nosweithiau digwsg a diwrnodau blinedig. Pan gyhoeddwyd fy llyfr 'Made it Thru the Rain' yn 2012 ychydig wyddwn am yr effaith y byddai'n ei gael ar eraill, a'r rheswm yw hyn:

Pan euthum trwy fy siwrnai o orweithio yn 2009, pan wnes i syrthio i ddyfnderoedd tywyll pryder, pan wnes i wisgo'r mwgwd o fod yn iawn, wnes i ddim sylweddoli nad fi oedd yr unig un ar y siwrnai honno.

Roeddwn wir yn meddwl pe bai eraill yn teimlo fel fi y buaswn yn sylwi, ond nid dyna oedd yr achos, oherwydd pan nad oes golau ni allwch weld, felly rydych chi'n teimlo'n unig, yn ddryslud ac yn ofnus.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod mor anodd i gynifer, rydw i, fy hun wedi mynd trwy bylliau o bryder ond heddiw nid ydyn nhw'n parhau cyhyd, am fod gen i'r arfau i'w goresgyn. Heddiw, rwyf am i chi wybod bod gennych chi hefyd yr arfau hyn yn och chi, bydd ymwybyddiaeth ofalgar, hunanofal, amser tawel, hobiau, cyfathrebu ag eraill, estyn allan, gan wybod nad ydych chi ar eich pen eich hun, hefyd yn eich helpu i goncro'r teimladau hyn.

Ar ôl darllen fy llyfr a chlywed fy hanes dyma ddau beth y gwnaeth dau o fy nghynulleidfa ei anfon ataf:

'Omg wrth wrando ar eich Podlediad mae cymaint o'ch heriau yn canu cloch. Mor ysbrydoledig i wybod y gallwn ddianc rhag gafael y bywyd corfforaethol'.

'Roeddwn i eisiau dweud wrthyfch fy mod wedi darllen eich e Lyfr hefyd ac fe darodd fi at fy nghraidd. Rwy'n teimlo pe bawn i wedi ei ddarllen 18 mis yn ôl, rwy'n credu y byddwn wedi estyn allan atoch ac wedi bod yn llawer mwy gwydn nag yr oeddwn i. Hoffwn pe bawn i wedi cwrdd â chi flynyddoedd yn ôl ac efallai na fuaswn wedi cyrraedd y man lle bûm bron â chwympo oddi ar wyneb y blaned a cholli 2 flynedd o fy mywyd. Mae'r manteision wrth i chi rhannu'r mathau hyn o brofiadau yn ddigon i newid bywyd - wir yr, ac fe fyddai wedi bod i mi'.

Felly cofiwch sut bynnag rydych chi'n teimlo heddiw - gallaf sicrhau nad ydych chi ar eich pen eich hun. <http://bit.ly/AwakenCoachingSite>



Dylanwadu ar ddyfodol y gweithle yng Nghymru

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith ar bob un ohonom – i rai ohonom, mae'n bywydau gwaith wedi newid wrth inni weithio gartref. Mae gweithio gartref wedi bod yn brofiad cadarnhaol i rai, gan roi mwy o hyblygrwydd iddyn nhw yn eu bywydau gwaith ac osgoi'r angen i gymudo'n ddyddiol. Rydym yn edrych ar opsiynau a fydd yn galluogi pobl i weithio yn eu hardal leol. Mae hwn yn ofod ffisegol, sy'n cael ei rannu a llawer o gwmnïau (rydym yn ei alw'n hyb). Os ydych chi'n hoffi'r syniad o weithio'n lleol, cofiwch ddweud wrthym. Bydd eich cyfraniadau'n helpu i ddylanwadu ar gynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.



<http://bit.ly/have-your-say-today>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Addasu ein gwasanaethau yn wyneb y pandemig

Ddeng mis ymlaen o'r cyfnod clo cyntaf, mae fwy neu lai pob elfen o'n busnes a'n gwasanaeth wedi eu heffeithio. Dyma rai o'r newidiadau rydym wedi eu gwneud y gellid eu defnyddio ar draws gwahanol sectorau a busnesau.

Prif elfen ein busnes, a'n ffynhonnell incwm fwyaf, yw gosod cartrefi ledled Torfaen. I ganiatáu i ni barhau i wneud hyn yn ddiogel rydym wedi mabwysiadu system i lofnodi dogfennau ddigidol - DocuSign – sy'n galluogi i gwsmeriaid lofnodi cytundebau tenantiaeth, trefnu debyd uniongyrchol a gwaith papur arall heb yr angen am bapur a phin ysgrifennu. Mae hyn wedi bod yn ychwanegiad cost cymharol isel i'n busnes ac wedi bod yn becyn effeithiol ac effeithlon iawn!

Mae rhyngweithio gyda'n cwsmeriaid a fyddai gynt wedi digwydd drwy gyfarfod wyneb yn wyneb – megis rhoi cymorth ac ymweliadau rheoli tenantiaeth – wedi symud i fod yn ddigidol. Yn gyffredinol, nid oes gan ein sylfaen cwsmeriaid fynediad at wasanaethau megis Teams neu Zoom, felly rydym wedi bod yn defnyddio cymwysadau y maent yn gyfforddus gyda nhw, fel WhatsApp a Facebook. Mae hyn wedi hyrwyddo gwell cysylltiad a chysylltiad mwy adeiladol gyda'n cwsmeriaid.

Mae'r rhain yn newidiadau a syniadau yr oeddem yn eu trafod cyn Covid, ond fel sy'n digwydd yn aml, roedd blaenoriaethau eraill a rhwystrau i'w rhoi ar waith. Maent yn dweud bod angen yn esgor ar arloesi. Mae'n rhy gynnar i ddweud os yw hynny yn hollol wir, ond mae'n sicr wedi gwneud y cyfnod mabwysiadu yn fyrrach!



Rheoli Costau Cyfleustodau yn ystod y cyfnod clo

Y brif flaenoriaeth i lawer o fusnesau yw sicrhau nad ydynt yn achosi costau di-angen yn ystod y cyfnod clo. Isod, mae rhestr o awgrymiadau synnwyr cyffredin i helpu.

1. Os ydych wedi cau eiddo, ydych chi wedi gwneud y trefniadau priodol? Er enghraifft, ydych chi wedi sicrhau bod rheolyddion gwresogi a goleuadau wedi eu haddasu i leihau defnydd gweddillol ynni tra bo'r eiddo yn wag, a yw offer wedi ei ddiffodd yn iawn a ddim yn aros yn segur yn unig? Gallai hyn fod yn offer prosesu ond i lawer bydd hyn yn cynnwys offer fel monitorau, gweinyddion, llungopïwyr, peiriannau argraffu ac ati.

2. Ydych chi'n darllen mesuryddion? Heb ddarlleniadau, bydd cyflenwyr yn tybio bod defnydd wedi aros yr un fath ac yn anfon amcangyfrifon yn unol â hynny. I osgoi gordalu, rhai i chi sicrhau eich bod yn darparu darlleniadau mesurydd rheolaidd *

3. Ydych chi'n cael trafferthion talu? Mae pob cyflenwr yn sensitif i'r heriau sy'n wynebu cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae eu hagwedd tuag at hyn yn amrywio'n fawr, gyda rhai cyflenwyr yn barod i fynd ymhellach nag eraill i helpu cwsmeriaid i gyflawni eu rhwymedigaethau. Ychydig iawn sy'n cynnig gwyliau talu, ac mae'r well ganddynt gyfeirio busnesau at amrywiol becynnau help ariannol sydd ar gael. Serch hynny, mae rhai yn bod yn fwy creadigol nag eraill. Y peth pwysig i'w wneud yw gwneud yn siŵr eich bod yn siarad gyda'r timau priodol

4. Dŵr – mae'r diwydiant dŵr wedi cymryd y cam unigryw o hepgor holl daliadau ar gyfer eiddo sydd ar gau. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd angen i chi gwblhau ffurflen cau safle. Mae un cyflenwr wedi dewis defnyddio'r drefn cau safle yn awtomatig yn achos pob safle y maent yn tybio eu bod ar gau dan restr y llywodraeth o sectorau a ddylai wneud hynny.

Mae Auditel wrth law i helpu cwsmeriaid gyda holl bethau hyn. chris.baker@auditel.co.uk



Love Jewellery - Gwireddu breuddwyd

Gyda dros 18 mlynedd o brofiad rhyngddynt yn y diwydiant gemwaith, roedd y fenter newydd hon yn ymddangos fel y cam nesaf mwyaf naturiol i'r ffrindiau gorau gydol oes Liz Daly-Bexon a Rhian Sage-Patil. Gyda'i gilydd maent yn rhannu angerdd syfrdanol am emwaith a chyfoeth gwych o wybodaeth a gafwyd ar eu teithiau.

Cyfarfu Liz a Rhian ar ynys St Maarten yn y Caribî, y ddwy yn mynd ar drywydd eu breuddwydion eu hunain o fyw ar ynys drofannol a gweithio yn y diwydiant gemwaith. Daw Rhian yn wreiddiol o Gwibrân a daw Liz o Ganolbarth Lloegr. Yn ystod y blynyddoedd yr oeddent yn St Maarten roedd ganddyn nhw gwlwm arbennig ac er iddyn nhw fynd eu ffyrdd gwahanol fe wnaethant gadw mewn cysylltiad, gyda'r ddwy, yn y pen draw, yn gweithio yn Alasga a'r Bahamas gyda'i gilydd. Gyda'r ddwy ohonyn nhw bellach wedi ymgartrefu yn y DU fe benderfynon nhw gychwyn busnes gyda'i gilydd a ganed Love Jewellery.

Gweledigaeth Love Jewellery yw bod pob merch yn berchen ar o leiaf un darn o emwaith hardd. Maent yn dewis pob darn yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu safonau uchel. Arian Sterling yn bennaf yw eu peth - ac mae Love Jewellery yn ymfalchïo mewn darparu gemwaith sy'n fforddiadwy iawn.

Llynedd fe wnaethant wynebu ychydig o heriau, yn bennaf oll am nad oeddent yn medru cwrdd â'i gilydd i drafod eu cynlluniau a methu â mynychu unrhyw arddangosfeydd! Ond, mae yna bositif bob amser wrth i Liz a Rhian ddenu cwsmeriaid sy'n lleol iddyn nhw, y gallent ddsbarthu eu heitemau iddynt a sicrhau cyfleoedd pellach i werthu'n lleol.

Facebook - <http://bit.ly/love-jewellery>
Instagram - <http://bit.ly/love-jewellery-shop>
E-bost - lovejewelleryshop@gmail.com



Ysgrifennwch eich llyfr

Mae'r pandemig wedi newid sut rydym yn cynnal materion busnes, a hynny'n sylweddol, ond un peth sydd heb newid: yr angen i gyfathrebu. Mewn gwirionedd, mae cyfathrebu yn bwysicach fyth ar hyn o bryd gyda'r angen i gadw pellter cymdeithasol ac ynysu. Sut ydyn ni'n cyfathrebu?

Gyda'n geiriau.

Tra bod llawer o fusnesau wedi bod yn brwydro, mae eraill wedi bod yn ffynnu, fel y byd cyhoeddi. Mae mwy a mwy o bobl yn troi at lyfrau i'w tywys drwy'r amseroedd anodd hyn. Gwelodd Bloomsbury gynnydd syfrdanol o 60% yn yr hyn a werthwyd rhwng mis Chwefror a mis Awst 2020.



Fel perchennog busnes, rydych mewn sefyllfa berffaith i fanteisio ar y duedd hon. Mae gennych arbenigedd, rydych yn feistr profedig ar eich crefft. Felly, beth am ysgrifennu llyfr amdano? Mae bod yn awdur yn rhoi statws i chi'n syth. Rhaid eich bod yn arbenigwr yn eich maes - fe ysgrifennoch lyfr amdano!

Sawl gwaith ydych chi wedi rhoi eich cerdyn busnes i rywun, gan wybod ei fod yn mynd i'w golli? Neu anfon copi o'ch pamffled atynt gan wybod mai casglu llwch yng nghefn drôr y bydd y pamffled hwnnw?

Anfonwch eich llyfr i rywun. Nid yn unig ydych chi'n rhoi gwybodaeth werthfawr iddyn nhw, rydych chi hefyd yn sefydlu eich hun fel rhywun sy'n wirioneddol barod i helpu. Rhywun sy'n hidio, o ddifri. Rhywun sy'n gwybod ei stwff. Ac yn fwy na hynny, os byddwch chi'n gwerthu'ch llyfr, mae pobl yn eich talu i farchnata'ch hun iddyn nhw! Pryd oedd unrhyw un yn hapus i dalu am eich pamffled? Os hoffech chi rhoi cynnig ar eich llyfr, anfonwch e-bost ataf info@neptunesdaughter.co.uk a dewch i ni wneud 2021 yn flwyddyn y daethoch i fod yn awdur cyhoeddedig. <http://bit.ly/neptunesdaughter-co-uk>
<http://bit.ly/NeptunesDaughterFacebookPage>

NEPTUNE'S  DAUGHTER



Cwmniau yn Nhorfaen yn manteisio ar y rhaglen Gwella Cynhyrchedd i ddiogelu eu busnesau gweithgynhyrchu yn y dyfodol

Lansiwyd Rhaglen Gwella Cynhyrchedd Llywodraeth Cymru yn Nhorfaen ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf ar ôl llwyddiant eang mewn ardaloedd eraill.

Fe wnaeth amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu yn Nhorfaen fynychu'r digwyddiad rhithwir llwyddiannus hwn a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac adran Economi a Mentergarwch Torfaen i ddarganfod sut y gallai'r rhaglen gymorth hon, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf mewn technolegau newydd, fynd â'u busnes i'r lefel nesaf.

Nod y rhaglen yw cynyddu effeithlonrwydd, datblygu cynhyrchion newydd ac archwilio marchnadoedd newydd yn y busnes. Neilltuir Rheolwr Perthynas Llywodraeth Cymru ac Arbenigwr Arloesi i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun i'w helpu i adolygu dulliau gwella cynhyrchiant a'u cefnogi trwy'r broses ymgeisio sy'n ystyriol o fusnesau.

Darperir cyngor gweithgynhyrchu arbenigol trwy ymgynghoriaeth cynhyrchiant wedi'i ariannu, sydd wedi helpu busnesau bach a chanolig gyda chynghor ynghylch cynlluniau ffatri, awtomeiddio heriau digidol, heriau gweithgynhyrchu technegol a gofynion marciau ansawdd.

Meddai Chris Gulliford, Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn Camtronics Vale: *"Hoffem ddiolch i'n hymgyngorwr am y natur broffesiynol a ddangoswyd yn ystod ei ymweliad i werthuso ein prosiect. Rhoddodd gyngor technegol amhrisiadwy ac awgrymodd sawl ffordd i wella ansawdd, trwy fewnbwn ac effeithlonrwydd, nid yn unig ar y prosiect dan sylw, ond mewn meysydd eraill o'r busnes. Bydd y cymorth a dderbyniwyd nid yn*

unig yn ein cynorthwyo nawr ond hefyd yn helpu i gyflawni ein nodau strategol yn y dyfodol."

Dywedodd Geraint Griffiths, cyfarwyddwr gweithrediadau Dodrefn Uwch-dechnoleg: *"Bydd Dodrefn Uwch-dechnoleg yn gallu dod â chynhyrchion newydd i'r farchnad yn gyflym ac yn effeithlon trwy becyn dylunio a gweithgynhyrchu â chymorth cyfrifiadurol, newydd."*

Ychwanegodd Nick Ball, cyfarwyddwr gweithrediadau gyda Express Contract Drying: *"Mae'r grant hwn yn cefnogi ein cynllun i fabwysiadu technoleg sydd wedi'i chynllunio'n benodol i reoli ein prosesau busnes yn well mewn modd integredig ac amser real, gan leihau dyblygu wrth ddal a rheoli data gan arwain at gynyddu effeithlonrwydd a dulliau olrhain. Mae'r fath system fentrus i gynllunio adnoddau yn fuddsoddiad allweddol o ran gweithrediadau, effeithlonrwydd, deallusrwydd a chynhyrchedd yn ein cwmni, a fydd yn atgyfnerthu ein busnes yn awr, ac yn ein cynorthwyo i ehangu busnes pellach yn y blynyddoedd i ddod."*

Os ydych chi'n fusnes gweithgynhyrchu sydd wedi ei leoli yn Nhorfaen a hoffai archwilio ymhellach i'r rhaglen hon, a fydddech cystal ag e-bostio:

info@southwalesbusiness.co.uk

<http://bit.ly/Arloesedd-SMART>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu, Prifysgol De Cymru

Mae Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu PDC yn galluogi sefydliadau i gael mynediad at arbenigedd ym Mhrifysgol De Cymru. Mae'r rhaglen yn ariannu cwrpas cyfnod cynnar, ymarferoldeb a chymorth diagnostig o dan nifer o themâu gan gynnwys: Twf Economaidd a Ffyniant; Gwella Sgiliau'r Gweithlu; Sefydlu Partneriaethau Diwydiant-Academaidd, a Ffyniant ac Ymgysylltu Dinesig.



Nod y rhaglen hon yw cynyddu cydweithio a phartneriaethau rhwng diwydiant ar byd academaidd, wrth gefnogi cyflwyno effeithiau economaidd cadarnhaol i Gymru. Mae ein tîm ymroddedig o Reolwyr Ymgysylltu yn darparu cefnogaeth i sefydliadau ddatblygu llwybrau ar gyfer cydweithredu parhaus. Gall hyn gynnwys: datblygu partneriaethau rhwng diwydiannau a'r brifysgol; cyfleoedd ymchwil ar y cyd; ymchwil neu ymgynghoriaeth; dylunio a darparu DPP neu hyfforddiant a, rhannu cyfleusterau ac offer.

Darpar cefnogaeth i adfer yn dilyn COVID

Fel rhan o strategaeth y Brifysgol i gefnogi busnesau trwy'r cyfnod adfer economaidd, ni fydd yn ofynnol i fusnesau ddarparu 'cyllid cyfatebol' yn ystod blwyddyn un y rhaglen hon (Awst 20 - Gorffennaf 21).

I ofyn am ffurflen gais a phecyn canllaw ac i drafod cynnig ar gyfer y Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu cysylltwch â thîm Cyfnewid PDC nawr ar uswexchange@southwales.ac.uk neu drwy ffonio 01443 482266.

<http://bit.ly/Rhaglen-Partneriaeth-ac-Ymgysylltu>

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Yswiriant Tarfu ar Fusnes

Mae gan rai polisiâu yswiriant busnes rywbeth o'r enw "Yswiriant Tarfu ar Fusnes" o fewn y polisi. Dyma'r adran a ddylai wasanaethu busnesau os gorfodir iddynt gau a lle mae eu busnes wedi ei "darfu" arno.

Mae yswiriant tarfu ar fusnes yn delio gyda cholled incwm yn ystod cyfnodau pan na allwch ymgymryd â'ch busnes fel arfer oherwydd digwyddiad annisgwyl. Nod yr yswiriant yw rhoi eich busnes yn ôl yn yr un sefyllfa fasnachu ag yr oedd cyn y digwyddiad. Mae'r cyfan yn dibynnu ar y geiriad yn eich polisi neu'r "print mân".

Fodd bynnag, mae cwmnïau yswiriant yn gwrthod llawer o geisiadau ar hyd a lled y wlad ac mae hyn wedi arwain at niferoedd arwyddocaol o fusnesau'r DU yn gorfod cau dros dro, neu leihau eu gweithredoedd yn fawr.



Mae llawer o geisiadau y dylid eu derbyn a'u talu yn cael eu gwrthod mewn gwirionedd. Os ydych chi'n un o'r busnesau hyn, yna gallwn gynnig adolygiad am ddim o'ch dogfennau polisi a dadansoddi'r print mân. Os bydd y cyfreithwyr yn teimlo y byddai achos yn llwyddiannus yn y llys, byddant yn derbyn yr achos o wneud Cytundeb Ffi Amodol (CFA), a elwir fel arall 'dim ffi heb ennill'. Mae hyn yn golygu nad oes cost i chi ar y dechrau.

Os hoffech gael gwybodaeth bellach ar Hawliadau Tarfu ar Fusnes, mae croeso i chi alw neu ebostio: neil.reynolds@reynolds-financial.co.uk

